

---

## PWYLLGOR IAITH, 12.10.17

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Cai Larsen (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Alan Jones Evans, Aled Evans, Judith Humphreys, Charles W. Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric M. Jones, Kevin Morris Jones, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams ac Elfed Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Mair Rowlands (Aelod Cabinet – Y Gymraeg)

**Cefnogaeth Gorfforaethol** Janet Roberts (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol), Gwenllian Williams (Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg) ac Ann Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Elwyn Edwards.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd materion brys.

### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf, 2017 fel rhai cywir.

### 5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG

Cyflwynwyd adroddiad llafar Aelod Cabinet y Gymraeg, yn manylu ar ddatblygiadau diweddar o fewn y maes, gan gynnwys y canlynol:-

- Digwyddiad yn Llandudno yn Ymgynghori ar Bapur Gwyn y Llywodraeth – Taro'r Cydbwysedd iawn: Cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg. Nodwyd bod Alun Davies, Y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg yn bresennol. Adroddwyd bod pwyslais yr ymgynghoriad ar ffafriaeth y Llywodraeth o ddiddymu rôl Comisiynydd y Gymraeg a sefydlu Comisiwn y Gymraeg.
- Y gwaith o lunio Strategaeth Iaith newydd Gwynedd yn mynd yn ei flaen. Y bwriad fydd ymgynghori ar y Strategaeth drafft yn ystod mis Tachwedd/Rhagfyr.
- Ymestyn y siarter iaith i'r ysgolion uwchradd drwy gyfrwng y Strategaeth Iaith Uwchradd.
- Canllaw Cynllunio Atodol – gwaith yn mynd rhagddo ar y canllawiau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 6. **YMATEB I DDOGFEN YMGYNGHOROL PAPUR GWYN Y LLYWODRAETH – TARO'R CYDBWYSEDD IAWN: CYNIGION AR GYFER BIL Y GYMRAEG**

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg yn cyflwyno ymateb drafft yr Uned Iaith i ymgynghoriad y Llywodraeth ar eu Papur Gwyn: Taro'r Cydbwysedd iawn: Cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg. Eglurodd bod ymgynghoriad y Llywodraeth i ystyried newidiadau i Fesur y Gymraeg a'r modd y caiff y Safonau eu gosod a'u gweithredu gyda'r nod o symleiddio'r broses.

Nodwyd bod y broses wedi bod yn system o fiwrocratiaeth drom a chroesawir y newid hwn tuag at drefn a fydd yn hybu a hwyluso, ac yn annog newid drwy fagu ewyllys da yn hytrach na gorfodi.

Cyflwynwyd y materion yn y crynodeb ar amcan y papur a'r ymateb gan y Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg. Nodwyd bod bylchau yn yr wybodaeth a gyflwynwyd ym mhapur y Llywodraeth, a'r angen i ddeall mwy cyn gallu rhoi barn bendant ar ambell i fater. Adroddwyd y bu cynrychiolaeth mewn digwyddiad ymgynghori agored gyda Gweinidog Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg ac y bydd cyfarfod arall ar 13 Hydref ar gyfer swyddogion yn benodol.

Tywyswyd yr aelodau drwy'r ddogfen drosolwg o Ran 1 i Ran 5.

Nodwyd bod y pwyslais wrh son am y meysydd strategol y mae'r Llywodraeth yn gyfrifol amdanynt y rhan 1 ar y maes Addysg ac nad oedd digon o sylw pendant i feysydd eraill fel cynllunio a'r economi a thwristiaeth nac am feysydd eraill lle mae potensial i ddylanwadu ar ddefnydd iaith.

Trafodwyd ac ystyriwyd y gwahanol opsiynau yn amlinellu'r dewisiadau posib ar gyfer strwythur newydd a lle bydd y gwahanol swyddogaethau a chyfrifoldebau yn gorwedd.

Mynegwyd pryder am yr opsiwn sydd yn cael ei ffafrio gan y Llywodraeth o sefydlu Comisiynydd ac am ddiffyg gwybodaeth eglur yn y papur ar wahanol agweddau.

Pwysleisiwyd yr angen i gael cymaint o annibyniaeth a phosib i'r corff newydd, a bod angen pwysleisio yn ymateb y Cyngor i'r Papur Gwyn yr angen i gydweithio yn hytrach na bod ar wahân.

Trafodwyd pwysigrwydd gwreiddio hawliau unigolion yn y Mesur er bod y Llywodraeth wedi dweud nad ydi hynny'n bosib. Trafodwyd yr angen i bobl gael y sicrwydd y bydd eu hanghenion ieithyddol yn cael eu parchu, a'r ddadl mai dim ond drwy osod hawl cyfreithiol y gellir gwneud hynny.

**PENDERFYNWYD derbyn ymateb drafft yr Uned Iaith i ymgynghoriad y Llywodraeth ar eu Papur Gwyn: Taro'r Cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg.**

## 7. **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR IAITH**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg ac atgoffwyd yr aelodau o gadarnhad yr Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol am gylch gorchwyl y Pwyllgor Iaith yn y cyfarfod diwethaf.

Gofynnodd aelod sut y gall y Pwyllgor Iaith oruchwylio gweithrediad y polisi iaith a chydymffurfiaeth gyda'r Safonau Iaith os nad ydi'r Pwyllgor yn craffu ar hynny. Rhaid sicrhau sefydlu rhaglen waith cadarn.

### **PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r Rhaglen Waith**

## **8. CWYNION AC YMCHWILIADAU**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg.

Nodwyd bod ymchwiliad hir a beichus wedi dod i ben gan y Comisiynydd Iaith i fethiant posib i gydymffurfio wrth ddarparu gwersi nofio. Adroddwyd bod y Comisiynydd wedi barnu i'r Cyngor fethu a chydymffurfio gyda Safon 81, a bod yr Uned Iaith wrthi'n ystyried sut i ymateb i gais y Comisiynydd i gymryd camau gweithredu. Nodwyd yr enghreifftiau o ddulliau gweithredu posib y gellid eu defnyddio i hybu a hysbysebu gwersi nofio Cymraeg a thrafodwyd yr angen i fod yn ofalus iawn wrth eirio hysbysebion.

Mewn ymateb i sylw aelod bod rhai aelodau o staff yn gallu siarad Cymraeg ond yn siarad Saesneg efo'i gilydd, adroddwyd bod y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i staff i gryfhau eu sgiliau Cymraeg. Adroddwyd bod y Cyngor wedi bod yn gweithio gyda staff Hamdden i wella'r sefyllfa a chytunwyd bod arferion ieithyddol sydd wedi hen sefydlu yn mynd i gymryd amser i'w newid. Nodwyd bod swyddog o'r adran hamdden yn gyfrifol am arsylwi gwersi nofio a bod llawer o waith cefndir yn mynd yn ei flaen i gefnogi staff Hamdden.

Eglurwyd bod y ddwy gŵyn a ddaeth i law ers y cyfarfod diwethaf yn ymwneud â pholisi recriwtio'r Cyngor a'r angen i gael sgiliau Cymraeg i ymgeisio am swyddi. Nodwyd nad oedd y cwynion yn manylu ar ba swyddi oedd yr unigolion wedi ceisio amdanynt.

### **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## **9. CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL**

Cyflwynwyd diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg ar y gwaith ar y Canllaw Cynllunio Atodol. Atgoffwyd yr aelodau eu bod wedi eu gwahodd i sesiwn briffio anffurfiol ar y cyd gyda'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 22 Medi, ble y cafwyd cyfle i drafod y canllaw gyda'r Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg a swyddogion cynllunio. Adroddwyd bod y gwaith o lunio'r Canllaw Atodol yn mynd rhagddo, ac atgoffwyd yr aelodau o'r bwriad i gyflwyno adroddiad drafft i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ddechrau Tachwedd. Nodwyd y bydd y Pwyllgor Iaith a'i aelodau yn cael eu cynnwys yn y broses o gyfrannu at a chraffu'r canllaw ar gais y Pwyllgor Craffu Cymunedau, ac ar y cyd gyda phwyllgorau cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn.

### **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad llafar**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 11.55.y.b